**HYSBYSIAD O GYNNIG**

**Cyngor Sir y Fflint**
**(A548 Sealand Road, Sealand)**
**Gorchymyn (Terfyn Cyflymder 40mya) 202x**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd drwy hyn ei fod yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adran 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a’r holl bwerau galluogi eraill, a fydd yn:-

a) Gosod cyfyngiad cyflymder o 40mya ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen i'r hysbysiad hwn.

**ATODLEN**
**<u>Terfyn Cyflymder 40mya</u>**

**A548 Sealand Road, Sealand:**
O’r pwynt 65 medr Gogledd-orllewin o’i gyffordd gydag Western Avenue, at ffin Sir y Fflint gyda Gorllewin Swydd Gaer a Chaer dangos. Y ffin wedi’i leoli 12 medr Gogledd-orllewin o’i gyffordd gydag Western Avenue, Blacon.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn arfaethedig a map yn dangos y darnau o ffyrdd y mae’r Gorchymyn arfaethedig yn ymwneud â nhw a datganiad o resymau’r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Wepre Drive, Cei Connah, CH5 4HA, yn ystod oriau gwaith arferol neu fe gellir eu gweld ar ein gwefan yn www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu gallwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.ukneu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i’r Gorchymyn arfaethedig, a’r sail ar gyfer gwrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod yn y cyfeiriad isod, (gan ddyfynnu cyfeirnod SS/JB/A548/40mph) erbyn dydd Gwener, 22 Rhagfyr 2023 neu drwy anfon e-bost at Transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk

Mae hwn yn disodli’r cynnig blaenorol a hysbyswyd ar 1 Gorffennaf 2022. Mae hyn oherwydd lleoliad newydd y camera cyflymder y bwriedir ei osod.



Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF.

Dyddiedig Dydd Gwener 1af o Rhagfyr 2023

**Dyddiedig xxx 20--**

**Cyngor Sir y Fflint**
**(A548 Sealand Road, Sealand)**
**(Terfyn Cyflymder 40mya) 202x**

**<u>GORCHYMYN</u>**

**fel y nodir oddi mewn**

**Katie Wilby**
**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)**
**Cyngor Sir y Fflint**
**Neuadd y Sir**
**Yr Wyddgrug**
**Sir y Fflint**
**CH7 6NF**

**Cyngor Sir y Fflint**
**(A548 Sealand Road, Sealand)**
**(Terfyn Cyflymder 40mya) 202x**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”) wrth ddefnyddio’i bwerau dan Adrannau 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”) a phob pŵer arall sy’n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

.

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn

2. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli’r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

4. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar XXXXXXXX 202x ac fe’i adnabyddir fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (A548 Ffordd Sealand, Sealand) (Cyfyngiad Cyflymder 40mya) 202x.

**ATODLEN**
**<u>Terfyn Cyflymder 40mya</u>**

**A548 Sealand Road, Sealand:**
O bwynt 65 metr i’r gogledd orllewin o’i gyffordd gyda Western Avenue, i ffin Sirol Sir y Fflint gyda Gorllewin Caer a Swydd Gaer. Y ffin wedi’i leoli 12 metr i’r gogledd orllewin o’i gyffordd gyda Western Avenue, Blacon

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR** )
**SIR Y FFLINT at hyn ar y** )
diwrnod o xxxxxxxxx 20-- ym mhresenoldeb :- )

**CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**UWCH GYFREITHIWR**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(A548 Sealand Road, Sealand)**
**(Terfyn Cyflymder 40mya) 202-**

**DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN**

Yn dilyn cais, cwblhawyd Asesiad Terfyn Cyflymder ar yr A548 Sealand Road, Blacon, i'r gogledd orllewin o'i chyffordd gydag Western Avenue, i ffin Sir y Fflint gyda Gorllewin Swydd Gaer a Chaer.

Mae'r asesiad yn argymell gostwng y terfyn cyflymder presennol o 50mya i 40mya o bwynt 65 metr i'r gogledd orllewin o'i chyffordd gydag Western Avenue, Blacon, i ffin Sir y Fflint gyda Gorllewin Swydd Gaer a Chaer.

Codwyd pryderon am ddiogelwch y safle bws presennol yn y lleoliad hwn a'r gyffordd brysur yn Western Avenue.


Mae'r Awdurdod yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darparu symudiad cyfleus a diogel i gerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau arfaethedig yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffordd ynghyd â gwella amwynder yr ardal.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig dydd Gwener y 1 diwrnod o fis Rhagfyr 2023



Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF




Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Katie Wilby

Director of Environment.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd.

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

STREETSCENE

DRAWN BY: NGW

CHECKED BY: JB

SCALE: 1: NTS @ A3

NAT. GRID REF: 335316 368807

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

# A548 Sealand Road

Arfaethedig Terfyn Cyflymder 40mya
Proposed 40mph Speed Limit

(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER: HT/23/A548 | 101 | P1